GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Sut rydym yn gwneud yng Nghymru?

## Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd am Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws

**Wythnos 64 (21ain i'r 27ain o Fehefin 2021) a COVID-hir**

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant, Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Cefndir

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg ymgysylltu â'r cyhoedd dros y ffôn yn gofyn i aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru sut mae coronafeirws a mesurau rheoli cysylltiedig yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles.

Mae'r arolwg yn cyfweld tua 600 o unigolion a ddewiswyd ar hap bob yn ail wythnos. Mae'r wybodaeth a gesglir yn sail i'r canlyniadau a gyflwynir yn yr adroddiadau bob pythefnos, gyda cwestiynau eraill yn newid yn dibynnu ar faterion sy'n dod i'r amlwg. Yr wythnos hon ychwanegwyd cwestiynau newydd yn ymwneud â brechu. Caiff data arolwg eu haddasu i gynrychioli poblogaeth Cymru yn ôl oedran, rhyw ac amddifadedd.*

Mae'r adroddiad yma hefyd yn cynnwys dadansoddiad o ddata sy'n ymwneud â COVID hir o gwestiynau a ofynnwyd rhwng wythnos 31 ac wythnos 62 (2il o Dachwedd 2020 i 13eg o Fehefin 2021).

Rydym yn diolch i bobl Cymru am roi o'u hamser gwerthfawr i gynorthwyo'r gwaith yma.



*Oni nodir yn wahanol. Oddi fewn i'r adroddiad, efallai na fydd y ffigyrau bob amser yn adio fyny i 100% oherwydd talgrynnu.

# Prif ganfyddiadau o wythnos 64

Cafodd 601 o drigolion Cymru sydd yn 18 oed a hyn eu cyfweld yn ystod wythnos 64 o'r arolwg (21ain i'r 27ain o Fehefin 2021).

## 8%

o bobl yn dweud eu bod yn credu fod brechu'n eu gwarchod yn "llwyr" rhag yr haint coronafeirws a 58% yn credu ei fod yn eu hamddiffyn "llawer".

## 42%

o bobl yn cytuno y dylai'r rheiny sydd wedi derbyn y ddau frechlyn allu cwrdd â'i gilydd heb bellhau cymdeithasol na gwisgo masgiau;roedd 58% yn anghytuno.

## 51%

o bobl sydd wedi derbyn brechlyn yn adrodd eu bod wedi profi rhyw fath o ymateb iddo – braich dolurus (24%) neu flinder (19%) oedd yr atebion mwyaf cyffredin.

Cyfwelwyd 9516 o oedolion rhwng wythnosau 31 a 62 (Tachwedd yr 2il 2020 i'r 13eg o Fehefin 2021) nododd 16% ohonynt eu bod wedi cael coronafeirws. Dadansoddom y data ar gyfer unigolion a nododd eu bod wedi cael symptomau coronafeirws fwy na 12 wythnos cyn cymryd rhan yn yr arolwg (n=1,028)* i archwilio hyd eu symptomau.

Nododd 39% o gyfranogwyr symptomau coronafeirws fod eu symptomau wedi para am o leiaf 4 wythnos; Dywedodd 21% fod eu symptomau wedi para am fwy na 12 wythnos. *

Blinder oedd symptom mwyaf cyffredin o COVID hir, ac yna bod yn fyr o anadl.

Roedd oedolion hŷn menywod ac unigolion â chyflyrau iechyd cronig (diabetes, clefyd yr ysgyfaint neu ganser) yn fwy tebygol o fod â symptomau am o leiaf 4 wythnos.

*Nid yw'r canrannau'n cael eu haddasu ar gyfer nodweddion poblogaeth neu sampl. Ni cynhwyswyd unigolion a nododd eu bod wedi cael coronafeirws heb unrhyw symptomau yn y dadansoddiadau.


Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Ynglŷn â coronafeirws

| | | |
|---|---|---|
| Ydych chi'n meddwl fod ganddoch neu eich bod wedi cael coronafeirws? | Do | 21% |
| | Ddim yn gwybod | 5% |
| Ydych chi wedi cael eich profi am glefyd coronafeirws neu ydach chi wedi cael y prawf gwrthgyrff? | Wedi cael prawf coronafeirws | 51% |
| | Wedi cael prawf gwrthgyrff | 11% |
| Pa mor bryderus ydych chi y gallech gael coronafeirws? | Dim o gwbl | 37% |
| | Ychydig | 34% |
| | Gymedrol | 23% |
| | Hynod | 5% |

# Gwybodaeth a chydymffurfio â'r cyfyngiadau

**Pa mor dda ydych chi'n teimlo eich bod yn deall y cyfyngiadau presennol sydd ar waith yng Nghymru i leihau lledaeniad coronafeirws?**




---


**Ar raddfa o 1 i 10 lle nad yw 1 yn ddim o gwbl a 10 yn llwyr, faint fyddech chi'n dweud eich bod chi'n dilyn y cyfyngiadau?**

Dim o gwbl — Yn llwyr

| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| <1% | <1% | 2% | 1% | 6% | 3% | 5% | 20% | 20% | 43% |

---

**Dwi'n credu fod y rhan fwyaf o bobl yn dilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol.**




# Cadw pellter cymdeithasol

| | Dim | 1 - 2 | 3 - 10 | Mwy na 10 |
|---|---|---|---|---|
| Ar wahân i'r bobl yn eich cartref eich hun neu'ch cartref estynedig, yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o fobl eraill ydych chi wedi dod i gysylltiad agos â nhw, sy'n golygu o fewn un metr? | 20% | 15% | 31% | 34% |
| Ar wahân i'r bobl yn eich cartref eich hun neu'ch cartref estynedig, yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o bobl sydd wedi dod i mewn i'ch tŷ? | 53% | 31% | 15% | 1% |
| Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, faint o dai pobl eraill ydych chi wedi bod ynddynt - heb gynnwys tŷ eich cartref estynedig? | 70% | 28% | 2% | <1% |

# Brechu

## Ydych chi wedi derbyn brechlyn ar gyfer coronafeirws?





Roedd 98% o'r cyfranogwyr a oedd wedi cael eu dos brechlyn 1af yn bwriadu cael 2il ddos.*

Roedd 27% o'r cyfranogwyr nad oeddent wedi derbyn brechlyn yn bwriadu cael un.*

*Data heb ei bwysoli.

*I'r rhai sydd gyda plant ar yr aelwyd***

## Os oes gennych blant o dan 18 oed, a fyddech chi am i'ch plant dderbyn brechiad coronafeirws?




**Data heb ei bwysoli; ~ Yn cynnwys y rhai sydd eisioes wedi'u brechu.

## O’r bobl sydd wedi derbyn o leiaf un dos o’r brechlyn*

### A brofoch chi unrhyw ymateb yn erbyn y brechlyn?

| | |
|---|---|
| Do | 51% |
| Braich dolurus | 24% |
| Blinder | 19% |
| Cur yn pen | 14% |
| Gwres/Crynedig | 13% |
| Poen cyhur / cymalau | 8% |
| Teimlo’n sâl | 5% |
| Adwaith alergaidd difrifol | <1% |
| Arall# | 9% |

*n=577; data heb ei bwyso;#Gan gynnwys symptomau cyffredinol tebyg i ffliw.

# Brechu

## Faint ydych chi'n meddwl fod y brechlyn wedi…


| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer | Yn gyfan gwbl |
|---|---|---|---|---|
| …eich amddiffyn rhag gael eich heintio o coronafeirws? | 9% | 26% | 58% | 8% |
| …eich amddiffyn rhag mynd yn ddifrifol wael os ydych chi'n dal coronafeirws? | 3% | 20% | 64% | 14% |
| …yn lleihau'r risg y byddwch chi'n heintio eraill â choronafeirws? | 12% | 30% | 52% | 6% |

## Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?

| | Cytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| Dylai pobl sydd wedi cael y ddau frechlyn allu cwrdd â'i gilydd heb wisgo gorchuddion wyneb na phellhau'n gymdeithasol | 42% | 58% |
| Ni ddylai pobl sydd wedi cael y ddau frechlyn orfod gwisgo gorchuddion gwyneb na orfod pellhau o ran pellter cymdeithasol o gwbl | 25% | 75% |

# Sut ydym yn bihafio?

## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref neu'ch gardd?





## Yn ystod y 7 diwrnod diwethaf, sawl diwrnod wnaethoch chi adael eich cartref…

| | 0 diwrnod | 1-2 diwrnod | 3-4 diwrnod | 5+ diwrnod |
|---|---|---|---|---|
| …i weithio | 55% | 13% | 5% | 27% |
| …i siopa | 17% | 57% | 17% | 9% |
| …i ymarfer corff | 36% | 15% | 20% | 29% |
| …i gwrdd â teulu / ffrindiau | 42% | 39% | 12% | 7% |
| …i fwyta mewn caffi, tafarn neu fwyty | 67% | 30% | 1% | 2% |

# Pa mor dda ydym ni'n ymdopi â choronafeirws?

## Ydych chi'n meddwl fod y cyfyngiadau sydd mewn lle i reoli coronafeirws yn…




| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Credaf fod Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r problemau a achoswyd gan y coronafeirws yn dda | 20% | 52% | 14% | 10% | 5% |
| Rwy'n hyderus y byddai'r GIG yn gallu gofalu amdanaf yn ddigonol pe bawn i'n ddifrifol wael gyda coronafeirws | 27% | 53% | 8% | 8% | 3% |
| Hyderaf y byddai'r heddlu'n defnyddio'u pwerau i gyfyngu ar symud pobl mewn modd call | 9% | 48% | 13% | 20% | 10% |

## Dros yr wythnos ddiwethaf, i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni chi?

| | Dim o gwbl | Ychydig | Llawer |
|---|---|---|---|
| Colli rhywun annwyl i’r feirws | 59% | 24% | 17% |
| Lles eich plentyn*#~ | 35% | 31% | 34% |
| Addysg eich plant*#~ | 35% | 27% | 38% |
| Colli’ch swydd neu fethu â dod o hyd i un#~ | 81% | 10% | 9% |
| Eich materion ariannol | 70% | 21% | 9% |
| Mynd allan i fannau cyhoeddus# | 46% | 41% | 13% |
| Effeithiau Brexit | 65% | 21% | 15% |

*Yn gyfyngedig i'r rhai sydd â phlant sy'n byw ar yr aelwyd; ~Data heb eu pwysoli; #Ac eithrio'r rhai a ymatebodd 'ddim yn berthnasol'

# Beth sydd wedi newid?


## O’i gymharu â dechrau’r llynedd cyn sefyllfa’r coronafeirws, a fyddech chi’n dweud fod y canlynol yn…

| | Llawer yn well | Ychydig yn well | Y run fath | Ychydig yn waeth | Llawer yn waeth |
|---|---|---|---|---|---|
| Eich iechyd corfforol | 8% | 9% | 52% | 21% | 10% |
| Eich ffitrwydd corfforol | 11% | 12% | 46% | 19% | 12% |
| Eich iechyd meddwl | 3% | 5% | 59% | 23% | 10% |
| Eich iechyd deintyddol | 3% | 1% | 68% | 17% | 11% |
| Eich perthnasoedd teuluol | 5% | 8% | 75% | 7% | 4% |
| Eich perthnasoedd cymdeithasol | 2% | 7% | 43% | 31% | 17% |
| Eich sefyllfa ariannol | 5% | 16% | 66% | 11% | 3% |
| Eich rhagolygon cyflogaeth neu gwaith | 6% | 5% | 81% | 5% | 3% |


# Beth sydd wedi newid?

## O'i gymharu â'r amser yma y llynedd, a fyddech chi'n dweud fod y canlynol wedi lleihau, aros yr un fath neu gynyddu?

### Cyfanswm o alcohol rydych yn yfed




### Eich pryder am newid yn yr hinsawdd




### Eich pwysau




Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut oedd y flwyddyn?

**Ar raddfa o 0 i100, lle 0 yw'r gwaethaf y gallwch ei ddychmygu a 100 yw'r gorau y gallwch chi ei ddychmygu, sut fyddech chi'n sgorio:**

| | 0 | 1-20 | 21-40 | 41-60 | 61-80 | 81-100 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y flwyddyn 2020 | 9% | 28% | 19% | 28% | 12% | 3% |
| Y flwyddyn 2019 | 1% | 4% | 2% | 14% | 44% | 35% |
| A beth ydych chi'n meddwl fydd sgôr ar gyfer 2021? | 2% | 8% | 13% | 44% | 23% | 10% |

## Sgoriau canolrif



# Sut ydym yn teimlo?

## Pa mor iach ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn iach o gwbl — 10 = Iach iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 6% | 34% | 60% |

## Pa mor hapus ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn hapus o gwbl — 10 = Hapus iawn

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 7% | 33% | 60% |

## Pa mor bryderus ydych chi'n ei deimlo heddiw?

0 = Ddim yn bryderus o gwbl — 10 = Hynod o bryderus

| 0-3 | 4-6 | 7-10 |
|---|---|---|
| 51% | 30% | 19% |

## Ar sawl diwrnod yn ystod yr wythnos diwethaf wnaethoch chi o leiaf 30 munud o weithgaredd corfforol (digon i'ch gwneud chi allan o wynt)?

| 0 days | 1-4 days | 5+ days |
|---|---|---|
| 27% | 38% | 35% |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Sut ydym yn teimlo?

## Yn ystod yr wythnos diwethaf, pa mor aml ydych chi wedi teimlo'n …

| | Unig | Ynysig |
|---|---|---|
| Byth | 63% | 63% |
| Weithiau | 25% | 27% |
| Yn aml | 8% | 7% |
| Wastad | 3% | 3% |

## Dros yr wythnos diwethaf i ba raddau mae'r materion canlynol wedi bod yn eich poeni?

Eich iechyd a'ch lles meddwl


| | |
|---|---|
| Dim o gwbl | 51% |
| Ychydig | 36% |
| Llawer | 14% |

Wythnos 64 (21ain i 27ain o Fehefin 2021)

# COVID-hir

O wythnos 31 (2il - 9fed o Dachwedd 2020) i wythnos 62 (7fed-13eg o Fehefin 2021) gofynnwyd i gyfranogwyr yr arolwg a nododd eu bod wedi cael coronafeirws * pryd oedd ganddynt symptomau cyntaf, pa mor hir yr oedd eu symptomau wedi para a pha un o'r ystod o symptomau yr oeddent wedi profi.

Arolygwyd 9,516 o oedolion dros y cyfnod hwn, a nododd 1,518 (16%) eu bod wedi cael coronafeirws. Er mwyn archwilio COVID hir, gwnaethom gyfyngu dadansoddiadau i'r rhai a nododd fod ganddynt coronafeirws fwy na 12 wythnos cyn yr arolwg (n = 1,054). Roedd categoreiddio arwydd o COVID hir (symptomau am o leiaf 4 wythnos; symptomau am fwy na 12 wythnos) yn seiliedig ar hyd cyffredinol symptomau hunan-gofnodedig unigolion. #




Er nad oes diffiniad y cytunwyd arno'n gyffredinol o COVID hir, mae canllaw NICE ar reoli effeithiau tymor hir COVID-19 yn cynnwys gofal i bobl sydd ag "arwyddion a symptomau sy'n datblygu yn ystod neu ar ôl haint sy'n gyson â COVID-19, parhau am fwy na 4 wythnos ac nid ydynt yn cael eu hegluro gan ddiagnosis amgen ". ^ Mae'n diffinio dau gam o COVID hir:

- *symptomau parhaus o COVID-19* (4 to 12 wythnos ar ôl yr haint)
- *effaith ôl -COVID-19* (mwy na 12 wythnos ar ôl haint)


Credir bod tua un rhan o bump o'r heintiau coronafeirws heb symptom~, sy'n awgrymu y bydd mwy o unigolion a aroglwyd wedi cael coronafeirws.

*Nid yw canrannau'n cael eu haddasu ar gyfer nodweddion poblogaeth neu sampl.
#Gofynnwyd i'r cyfanogwyr 'a ydych yn credu eich bod wedi cael, neu gyda coronafeirws ar hyn o bryd?' Mae rhai a ymatebodd "ie" wedi'u cynnwys yma (ymatebodd 7447 o bobl "na" a 551 "ddim yn gwybod". Mae categoreiddio COVID-hir yn seiliedig ar ymatebion i'r cwestiwn dilynol yn gofyn: "tua pa mor hir y parhaodd eich symptomau'n gyffredinol?" Yna gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd gandynt bob un o'r saith symptom ac os felly, pa mor hir oedd y symptom wedi para.
^Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Canllaw cyflym COVID-19 : rheoli effeithiau tymor hir COVID-19. Rhagfyr 2020.
~ https://journals.plos.org/plosmedicine/article?id=10.1371/journal.pmed.1003346; https://www.medrxiv.org/content/10.1101/2020.05.20.20108183v2.


# Hyd symptom COVID

## Cyfran y bobl gydag unrhyw symptom coronafeirws sy'n adrodd pob un math o'r symptomau, yn ôl hyd y symptom.


### Gwres





### Tagu





### Colli /newid i flas ac arogl





### Blinder





### Poen cymalau




### Fyr o wynt





### Cur pen




Data heb ei bwyso; n=1,028

# Symptomau

## Hyd y symptomau unigol mewn pobl yr oedd eu symptomau cyffredinol yn para o leiaf 4 wythnos (n=412)




Blinder oedd y symptom mwyaf cyffredin a adroddwyd gan unigolion, oedd gyda symptomau coronafeirws wedi para am o leiaf 4 wythnos.


# Nodweddion sy’n gysylltiedig â COVID hir.

## Cyfran wedi’i haddasu o bobl â symptomau coronafeirws a nododd fod ganddynt symptomau am o leiaf 4 wythnos*

### Rhyw*





### Grŵp oedran*




### Cyflwr iechyd cronig*




Cynyddodd cyfran addasedig y rhai â symptomau coronafeirws a brofodd symptomau am o leiaf 4 wythnos o 17% ymhlith dynion 18 – 34 oed heb unrhyw gyflwr iechyd cronig i 63% ymhlith menywod 75+ oed â chyflwr iechyd cronig.




Mae'r dadansoddiad yn cynnwys pob unigolyn â symptomau coronafeirws o leiaf 12 wythnos cyn yr arolwg (n = 1,028) ac mae'n defnyddio modelau llinellol cyffredinol gan gynnwys grŵp oedran, rhyw, cwintel amddifadedd (ddim yn arwyddocaol; ns), ethnigrwydd (ns), cyflwr iechyd cronig (diabetes, clefyd y galon, clefyd yr ysgyfaint neu ganser) a diagnosis salwch meddwl (oes bywyd; ns). Amcangyfrifir fod cyfrannau wedi'u haddasu yn golygu ymylol i addasu ar gyfer nodweddion sampl. Nid yw data'n cael ei haddasu i ddemograffeg y boblogaeth.

# Nodweddion sy’n gysylltiedig â COVID hir.

## Cyfran wedi'i haddasu o bobl â symptomau coronafeirws a nododd fod ganddynt symptomau am fwy na 12 wythnos


### Rhyw*





### Cyflwr iechyd cronig*




### Grŵp oedran*




### Cwintel amddifadedd*




Roedd benywod, oedolion hŷn, y rhai â chyflyrau iechyd cronig a thrigolion yn y cwintel mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o nodi symptomau a barhaodd am fwy na 12 wythnos.

Mae'r dadansoddiad yn cynnwys pob unigolyn â symptomau coronafeirws o leiaf 12 wythnos cyn yr arolwg (n = 1,028) ac mae'n defnyddio modelau llinellol cyffredinol gan gynnwys grŵp oedran, rhyw, cwintel amddifadedd (ddim yn arwyddocaol; ns), ethnigrwydd (ns), cyflwr iechyd cronig (diabetes, clefyd y galon, clefyd yr ysgyfaint neu ganser) a diagnosis salwch meddwl (oes bywyd; ns). Amcangyfrifir fod cyfrannau wedi'u haddasu yn golygu ymylol i addasu ar gyfer nodweddion sampl. Nid yw data'n cael ei haddasu i ddemograffeg y boblogaeth.

# Cyhoeddwyd Gorffennaf yr 2il 2021

Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant

World Health Organization Collaborating Centre on Investment for Health and Well-being

phwwhocc.co.uk

@phwwhocc Phwwhocc

## Ymholiadau

**Datblygydd yr Arolwg**

Yr Athro Mark A Bellis

**Data a Dadansoddeg**

Yr Athro Karen Hughes

**Cymorth Dadansoddol**

Sara Wood a Natasha Judd

**E-bost**
Ymholiadau.cyffredinol@wales.nhs.uk

**Ffôn**
02920 227744

**Wê**
icc.gig.cymru

**Polisi a Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fudsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant**

Llawr 5, Iechyd Cyhoeddus Cymru,
2 Capital Quarter,
Stryd Tyndall,
Caerdydd, CF10 4BZ

## Sut wyt ti?

Am wybodaeth cyffredinol ar sut i edrych ar ôl eich hunan, eich ffrindiau a'ch teulu yn ystod cyfyngiadau coronafeirws ymwelwch â:

**icc.gig.cymru/sut-wyt-ti**

